



St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

Polisi Atal ('Prevent')

Awdur	Alwyn Lloyd
Dyddiad Cyhoeddi	Chwefror 2021
Asesiad Effaith Cydraddoldeb	Chwefror 2021
Asesiad Effaith Ieithyddol	Chwefror 2021
Statws	
Wedi'i gymeradwyo gan	Uwch-dîm Arweinyddiaeth (SLT) a'r Bwrdd Llywodraethol
Dyddiad Cymeradwyo	Mawrth 2021
Dyddiad Adolygu	Mawrth 2023
Dyddiad Cychwyn	Mawrth 2021

Polisi Atal ('PREVENT') Coleg Dewi Sant

1. Cwmpas

Mae'r Strategaeth Atal ('PREVENT') yn rhan o Bolisi Diogelu ehangach y Coleg, sy'n ceisio hyrwyddo a diogelu llesiant plant ac oedolion bregus. Mae'r Strategaeth Atal yn gymwys i holl gymuned y Coleg, gan gynnwys Llywodraethwyr, staff dysgu, staff cymorth, myfyrwyr, a gwirfoddolwyr.

2. Nodau'r Polisi

- i. Sicrhau bod holl aelodau staff yn ymwybodol o'u dyletswydd Atal
- ii. Trwy hyfforddiant a diweddariadau Atal blynyddol, i hybu hyder ymhlith staff ynghylch eu gallu i adnabod oedolion ifanc mewn perygl o gael eu denu gan eithafiaeth neu weithgareddau terfysgol, a sicrhau y teimlant y trinnir eu pryderon o ddifrif.
- iii. Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u dyletswydd i herio safbwyntiau ac ymddygiad eithafol y gallai myfyrwyr arddangos.
- iv. Darparu system o gofnodi a monitro pryderon posib, cyn codi consyrn ffurfiol.
- v. Sicrhau protocol clir ar gyfer cyfeirio pryderon o fewn y Coleg, sy'n ddealladwy i holl aelodau staff.
- vi. Sicrhau protocol clir ar gyfer SPOC (Pwynt Unigol o gyswllt) i ddilyn wedi i gonsyrn gael ei godi.
- vii. Sicrhau darpariaeth yn rhaglen fugeiliol y Coleg er mwyn traddodi Atal.

3. Rhagarweiniad

Yn y Deyrnas Unedig, mae bygythiad cyfredol terfysgaeth ac eithafiaeth yn wirioneddol a difrifol, a gallai gynnwys cam-fanteisio ar bobl fregus, gan gynnwys plant, i'w cynnwys mewn gweithgaredd terfysgol. Cynlluniwyd y canllawiau hyn, felly, i ddarparu fframwaith clir ar gyfer staff, er mwyn iddynt allu ymateb i bryderon diogelu'r plant a'r oedolion ifanc hwnnw a allai fod yn fregus neu'n agored i negeseuon eithafiaeth.

Yn ychwanegol, mae'r polisi hwn yn darparu manylion ar broses rhyngasiantaeth leol a'r disgygliadau wrth ddynodi ymyriadau ar sail model consyrn plant/trothwy anghenion, y model ymyrraeth, a'r broses sianelu. (Gweler isod).

Diffinnir 'Radicleiddio' fel proses lle y mae pobl yn dechrau cefnogi terfysgaeth ac eithafiaeth, ac mewn rhai achosion, yna'n cymryd rhan mewn grwpiau treisiol a therfysol. **"Mae Eithafiaeth yn wrthwynebiad amlwg neu weithredol i werthoedd Prydeinig sylfaenol, sy'n cynnwys democratiaeth, y gyfraith, rhyddid yr unigolyn a pharch a goddefgarwch tuag at wahanol grefyddau a chredoau.** Yn ein diffiniad o eithafiaeth, rydym hefyd yn cynnwys galw am farwolaeth aelodau o'r fyddin, boed yn y wlad hon neu dramor" (Strategaeth Atal y Llywodraeth 2011).

4. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Bwriedir yr holl strategaethau i sicrhau nad yw unrhyw unigolyn yn cael ei d/thrin yn llai ffafriol ar sail hil, lliw, tarddiad cenedlaethol neu ethnig neu gymdeithasol, anabled, rhyw, rhywioldeb, ailgyfeiriad rhywiol, partneriaeth sifil a phriodasol, beichiogrwydd a mamolaeth, oedran, crefydd/ffydd, neu greddoau gwleidyddol/personol eraill.

5. 'CONTEST' – Canllawiau a Strategaethau Cenedlaethol

Strategaeth gwrth-derfysgol y Llywodraeth yw 'Contest', sy'n ceisio lleihau risg terfysgaeth yn y DU a'i gysylltiadau tramor. Mae 4 P y strategaeth 'Contest' fel a ganlyn:

- **Atal:** i atal pobl rhag cael eu radicleiddio

- **Amddiffyn:** i gryfhau ein hamddiffyniad rhag ymosodiad terfysgol
- **Paratoi:** i liniaru effaith ymosodiad terfysgol.
- **Canlyn:** i atal ymosodiadau terfysgol.

a. Mae **Atal** yn rhan allweddol o strategaeth *Contest*, ac mae'n ganolbwynt y polisi neilltuol hwn; ei nod yw atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgwyr. Mae ymyrraeth gynnar wrth wraidd *Atal*, wrth droi sylw pobl i ffwrdd o gael eu denu gan weithgaredd terfysgol. Digwyddir *Atal* cyn i unrhyw weithgaredd troseddol gymryd lle. Mae *Atal* hefyd ynghlwm â chydabod, cefnogi, a diogelu pobl a allai fod yn agored i radicaleiddio.

Amcanion y strategaeth *Atal* yw:

- Ymateb i her ideolegol terfysgaeth a'r bygythiad a wynebwn gan y rhai sy'n ei hyrwyddo
 - Atal pobl rhag cael eu denu gan derfysgaeth, a sicrhau y rhoddir cyngor a chefnogaeth briodol iddynt
 - Gweithio gyda sectorau a sefydliadau lle y ceir peryglon o risg radicaleiddio sydd angen i ni ymroi ati. (-adolygydd- Canllawiau Dyletswydd *Atal* yn Lloegr a Chymru, 2015)
- b. Mae **Sianel ('Channel')** yng Nghymru yn rhan o WECTU (Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru). Mae Sianel yn elfen allweddol o'r strategaeth *Atal*, ynghyd â'r dull aml-asiantaeth sy'n diogelu pobl rhag peryg radicaleiddio. Mae *Sianel* yn defnyddio cydweithrediad cyfredol rhwng awdurdodau lleol, partneriaid statudol (megis y sector addysg ac iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau plant ac ieuenctid, a gwasanaethau rheoli tramgwyddwyr), yr heddlu a'r gymuned leol er mwyn:

- adnabod unigolion mewn perygl o gael eu denu gan derfysgaeth
- asesu natur ac ystod y peryg hwnnw
- datblygu cynllun cefnogaeth sydd mwyaf addas ar gyfer yr unigolion dan sylw.

Mae *Sianel* ynghlwm â diogelu plant ac oedolion rhag cael eu denu i gyflawni gweithgaredd terfysgol. Mae'r strategaeth hyn ynghlwm ag ymyrraeth gynnar i ddiogelu a throi sylw pobl i ffwrdd o'r peryg a wynebid ganddynt cyn i anghyfreithlondeb ddigwydd.

6. Strategaeth *Atal* ('PREVENT') y Coleg

Yn gyntaf, bydd y Coleg yn hyrwyddo ei genhadaeth ac ethos, sy'n gyson â'r gwerthoedd Prydeinig trwy gyfryngau megis rhaglenni crefyddol a bugeiliol, gwasanaethau a litwrgi, trwy waith dyddiol y tîm bugeiliol, ynghyd â thrwy ddysgu'r cwricwlwm a'r gweithgareddau cyfoethogi.

Dylai staff herio unrhyw ragfarn, gwahaniaethu neu syniadau eithafol, gan gynnwys iaith fychanus a arddangoswyd gan fyfyrwyr neu staff. Dylid delio gyda hyn yn unol â'n Polisi Bugeiliol Myfyrwyr a, lle'n briodol, polisi efrydiaeth y Coleg (a elwid yn flaenorol yn 'Polisi Disgyblu Myfyrwyr').

Dylai staff fod yn effro i:

- Ddatgeliadau gan fyfyrwyr o'u datguddiad i weithredoedd, safbwyntiau, neu ddeunydd eithafol eraill tu hwnt i'r Coleg, megis yn eu cartrefi neu grwpiau cymunedol, yn enwedig lle nad yw'r myfyrwyr wedi chwilio am y rhain yn weithredol.
- Graffiti symbolau, ysgrifen, neu gelf sy'n hyrwyddo negeseuon neu ddelweddau eithafol.
- Myfyrwyr yn cyrchu deunydd eithafol ar-lein, gan gynnwys trwy wefannau cyfryngau cymdeithasol

- Adroddiadau rhieni o newid mewn ymddygiad, cyfeillgarwch, neu weuthredoedd y myfyriwr, a cheisiadau am gymorth.
- Adroddiadau gan ysgolion partner, gwasanaethau'r awdurdodau lleol, a'r heddlu o faterion sy'n effeithio'r myfyrwyr mewn lleoliadau eraill.
- Myfyrwyr yn lleisio barn sy'n deillio o ideologau a naratif eithafol.
- Defnydd o dermau eithafol neu 'gas' er mwyn eithrio eraill neu annog trais.
- Anoddefgarwch ynghylch gwahaniaethau, boed yn seciwlar neu grefyddol neu, yn unol â'n polisi cydraddoldeb, safbwyntiau sy'n seiliedig ar, ac sydd ddim yn neilltuedig i, ryw, anabledd, homoffobia, hil, lliw, neu ddiwylliant.
- Ymdrechion i orfodi safbwyntiau neu arferion eithafol ar eraill.
- Syniadau sy'n wrth-Orllewin neu'n wrth-Brydeinig.
- Trefniadau ar gyfer addoliad ysbrydol neu weddiâu sy'n rhoi cyfle i unigolion hyrwyddo eithafiaeth.
- Negeseuon a draddodir gan siaradwyr allanol a allai gael eu dehongli fel rhai eithafol, felly;
 - i. Dylai staff sy'n trefnu siaradwyr fabwysiadu dull asesiad risg wrth drefnu siaradwyr allanol, ac i drafod unrhyw bryderon gydag Arweinydd Diogelu neu'r Pennaeth.
 - ii. Dylai siaradwyr allanol gael eu hebrwng
 - iii. Dylai o leiaf un aelod staff fod yn bresennol yn ystod yr araith/cyflwyniadau i fyfyrwyr.
- Trwy weithrediad yr ystadau, dylid bod yn ofalus pan gytunir i grŵp allanol logi neu osod adeiladau'r Coleg. Mae'r cytundeb llogi yn cynnwys adran sy'n nodi diben yr osod. Dylid archwilio unrhyw bryderon ynghylch cyfreithlondeb y sefydliad i gyfarwyddo'r osod, a chyfeirio hynny am glirdeb i'r cytundeb rheoli *Atal* (PREVENT). Gweler isod.

Bydd y Coleg yn cyflwyno'r Strategaeth *Atal* ('PREVENT') i holl ddysgwyr yn ystod tymor cyntaf y rhaglen fugeiliol yng nghwricwlwm bugeiliol lefel 2 a lefel 3. Traddodir dyluniad a chyflwyniad rhaglen **Ddealltwriaeth a Chydnabyddiaeth o Beryglon a Bregusrwydd i Egwyddorion Radicaleiddio** gan y cyfarwyddwr bugeiliol, a chaiff ei anfon am adolygiad gan arweinydd SLT am *Atal* ('PREVENT'). Datblygir adnoddau *Atal* y Coleg yn unol â chanllawiau a deunydd cenedlaethol.

Does dim y fath beth ag 'eithafwr tebygol', ac 'mae'r rhai sydd ynghlwm ag eithafiaeth fel arfer yn deillio o gefndiroedd a phrofiadau eang. Mae'r ymchwil a'r dystiolaeth yn ymwneud â'r grŵp risg hon yn gyfyngedig, ond mae'n datblygu'n gyflym. Dydy'r mwyafrif o unigolion, hyd yn oed y rhai sydd â safbwyntiau radicalaidd, ddim yn cymryd rhan mewn eithafiaeth dreisiol. Mae ffactorau helaeth yn cyfrannu ac yn dylanwadu ar yr ymddygiad a ddiffinnir fel eithafiaeth dreisiol. Mae'n bwysig ystyried y ffactorau hyn er mwyn datblygu dealltwriaeth ar sail y mater. Mae hefyd yn angenrheidiol i ni ddeall y ffactorau hynny sy'n cryfhau gwydnwch ac sy'n diogelu unigolion rhag cymryd rhan mewn gweithgaredd eithafol, treisiol.

Mae'n bwysig i fod yn ofalus wrth asesu'r ffactorau hyn er mwyn osgoi labelu neu warthnodi'n unigolion mewn modd anaddas oherwydd mae ganddynt neilltuolrwydd arbennig neu'n ffitio proffil neilltuol. Mae'n hollbwysig bod pobl broffesiynol, sydd â chyswllt gydag unigolion bregus, yn gallu cydnabod y gwendidau hynny a chynorthwyo dewisiadau sy'n ddiogel.

Mae'n angenrheidiol i gofio bod ymddygiad treisiol yn digwydd ar sawl lefel heb ffactorau diogelu, a bod unigolion yn gweithredu'n bennaf o fewn cyd-destun eu hamgylchedd a'u profiadau.

Arwyddion o fregusrwydd:

- **Argyfwng Hunaniaeth** – Pellter o etifeddiaeth ddiwylliannol / grefyddol ac yn anghyfforddus â'u lle yn y gymdeithas o'u cwmpas.
- **Argyfwng Personol** – Tensiynau teuluol; ymdeimlad o unigrwydd; glasoed; hunan-barch isel; datgysylltu o grŵp ffrindiau presennol ac yn ynghlwm â grŵp newydd, gwahanol o ffrindiau; chwilio am atebion i gwestiynau ynghylch hunaniaeth, ffydd, ac ymdeimlad o berthyn.
- **Amgylchiadau Personol** – Ymfudiad; tensiynau'r gymuned leol; digwyddiadau sy'n effeithio gwlad neu ardal gynefin; dieithriad o werthoedd y DU; ymdeimlad o achwyniad a achoswyd gan brofiad personol o hiliaeth neu wahaniaethu neu agweddau o bolisi'r Llywodraeth.
- **Dyheadau heb eu cyflawni** – Sylwgarwch o anghyfiawnder; ymdeimlad o fethiant; gwrthod bywyd dinesig.
- **Troseddoldeb** – Profiadau o garchariad; ailwladychiad/atgyfaniad gwael; ymrwymiad blaenorol gyda grwpiau troseddol.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ac nid yw'n golygu bod y bobl ifainc sy'n profi'r uchod mewn peryg o gael eu hecsbloetio at ddibenion eithafiaeth dreisiol.

Ffactorau Risg hanfodol:

- Mewn cysylltiad gyda recriwtiaid o grwpiau eithafol
- Lleisio cefnogaeth am achosion neu arweinwyr eithafol, treisiol
- Cyrchu gwefannau eithafol, treisiol, yn enwedig y rhai gydag elfen rhwydweithio gymdeithasol.
- Perchenogi neu'n cyrchu llenyddiaeth eithafol, dreisiol.
- Defnyddio naratif eithafol ac ideoleg fydol er mwyn esbonio anfantais personol.
- Cyfiawnhau defnydd o drais i ddatrys materion cymdeithasol
- Ymuno neu'n ceisio ymuno â sefydliadau eithafol.
- Newidiadau sylweddol mewn golwg ac/neu ymddygiad

Y safbwynt cyffredin yw bod yna berthynas gymhleth rhwng agweddau amrywiol yr unigolyn sy'n penni eu bregusrwydd i eithafiaeth. Mae asesiadau sy'n or-symbl ar sail demograffeg neu gyfeiryddion tlodi wedi arddangos yn rheolaidd y cynyddiad mewn erledigaeth, methiant i adnabod gwendidau a, mewn rhai achosion, cynyddiad yng ngallu eithafwyr i ecsbloetio, gweithredu a recriwtio.

8. Monitro Consyrrn *Atal* ('PREVENT')

Mae'r Coleg yn cynnal cofrestr *Atal* ('Prevent') i recordio unrhyw gonsyrrn *Atal* a wnaed gan y FPOC. Mae hyn yn monitro pryderon a chasglu gwybodaeth, cyn i unrhyw atgyfeiriad ffurfiol ddigwydd. Cedwir hyn ar 'Sharepoint' mewnol y Coleg, sy'n cael ei rheoli gan y FPOC.

A	B	C	D	E	F	G	H	I	J
ID	Date Reported	Name of Student At Risk	Person Reporting Risk	Evidence used to cite concerns	Person responsible for Investigating	Action Taken	Date Action Taken	SLT Informed?	Information & Notes from Channel
1								Alwyn Lloyd	

9. Proses Atgyfeirio ac Ymyrraeth

Mae 'Pwynt Unigol o gyswllt' (FPOC) *Atal* hefyd yn arweiniad o fewn y Coleg ar gyfer disgyblu, gan weithio'n gyfochr â'r swyddogion diogelu ynghylch diogeliad unigolion rhag radicaleiddio a'u hymglymiad gyda therfysgaeth. Delir y rôl hon ar hyn o bryd gan Jamie Beynon, Uwch-reolwr Cynorthwyol.

Fel gyda materion diogelu eraill, lle mae aelod staff â chonsyrrn bod person neu'i d/theulu mewn peryg o radicaleiddio neu ymglymiad gyda therfysgaeth, yn gallu cyfathrebu gyda Swyddog Diogelu, ond dylai gonsyrrn o'r

fath gael ei adrodd ymlaen llawn heb oedi i'r FPOC. *Nid oes angen i'r consyrn fod yn seiliedig ar dystiolaeth, gall fod yn deimlad nad yw rhywbeth yn iawn.*

Pan fydd y FPOC yn barnu y gellir mynd i'r afael â'r consyrn trwy weithrediad yn y Coleg gan gyd-weithio'n agos gyda'r staff bugeiliol perthnasol, yna gallai gynnig cyngor ac arweiniad. Yn yr achos hwn, dylai'r Coleg weithredu'n briodol i ddelio ag unrhyw gonsyrn, ac i adolygu os yw'r consyrn yn parhau ar ôl hyn. Os creda'r FPOC fod unrhyw achos consyrn y tu hwnt i gymhwysedd arferol y Coleg, yna ddylai ddod â'r achos i'r aelod SLT â chyfrifoldeb dros *Atal*, a gyda'i gilydd gallant benderfynu cysylltu â *Sianel*. Yr aelod SLT sydd â chyfrifoldeb dros *Atal* yw Alwyn Lloyd, Pennaeth Cynorthwyol.

Dylai cyswllt cychwynnol gyda *Sianel* arwain at ymgynghoriad cychwynnol, ac ar ôl hynny gellir penderfynu gyfeirio'n ffurfiol. Ar yr adeg hon, bydd yr aelod SLT, fel rheol, yn bwynt cyswllt rhwng *Sianel* a'r Coleg.

Gwneir atgyfeiriad ffurfiol gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yma: [All Wales Prevent Partners Referral Form - English](#) (south-wales.police.uk)

Os teimlir, ar unrhyw adeg, fod unigolyn yn peri perygl iddo'i hun neu unrhyw berson arall, dylid galw'r heddlu ar unwaith. (Gweler yr adran nesaf am rifau cyswllt).

10. *Sianel* ('CHANNEL')/WECTU

Mae *Sianel* ('CHANNEL') yn ddull aml-asiantaeth sy'n darparu cefnogaeth i unigolyn sydd mewn perygl o gael eu denu gan weithgaredd terfysgol.

Mae *Sianel* yn ceisio:

- Sefydlu proses atgyfeirio ac ymyrraeth aml-asiantaeth effeithiol i adnabod unigolion bregus;
- Diogelu unigolion a allai fod yn agored i radicleiddio, er mwyn sicrhau nad ydynt mewn perygl o gael eu denu gan weithgaredd terfysgol;
- Darparu ymyrraeth gynnar i ddiogelu a throi sylw pobl i ffwrdd o'r peryglon a wynebid ganddynt, er mwyn lleihau'u bregusrwydd

Os teimlir, ar ôl yr ymgynghoriad cychwynnol gyda *Sianel*, fod atgyfeiriad i *Sianel* yn addas, dylid gwneud hyn gan Arweinydd Diogelu.

I gysylltu â thîm *Sianel*, e-bostiwch yn uniongyrchol i'r:

Swyddog *Atal*: DC Darren Summerfield Ffôn: DD. 02920 527356 Ffôn Symudol: 07974 796230 E-bost: Darren.summerfield@south-wales.pnn.police.uk Neu e-bostwch yn gyffredinol i: Prevent@south-wales.pnn.police.uk

Hefyd:

Gallwch ddefnyddio'r llinell gymorth Wrth-derfysgaeth i adrodd consyrn ynghylch gweithgaredd terfysgol ar **0800 789 321**.

Yn hytrach, gallwch ffonio'r rhif di-argyfwng i adrodd digwyddiadau sydd ddim yn beryglus: **101 (in Wales)** or **0845 6071002 (from outside Wales)**

11. Hyfforddiant Staff

Mae'n ofynnol i holl aelodau staff gwblhau hyfforddiant *Atal* blynyddol gan ddefnyddio'r Uned Cydymffurfio ar-lein drwy Cylix. Mae'n angenrheidiol bod staff newydd yn ymgymryd â'r unedau Cydymffurfio, sy'n cynnwys *Atal*, yn ystod eu hanwythiad Coleg.

Atgoffir holl aelodau staff o'u cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â materion diogelu trwy'r bwletin staff wythnosol, Mwdl Staff, ac ar ddechrau'r flwyddyn, trwy gyfarfodydd anwythiad staff newydd a gweithdrefnau

Rheolaeth Berfformiad blynyddol ar gyfer holl aelodau staff, ac yn ystod adegau perthnasol yn ystod y flwydd, os oes newid i'r weithdrefn.

12. Panel Diogelu

Ynghyd â'r cyfarfodydd cyfredol rhwng yr ASM (gyda chyfrifoldeb dros disgyblaeth myfyrwyr) a swyddogion diogelu'r Coleg, bydd yna Banel Diogelu sy'n cwrdd yn rheolaidd i adolygu'r strategaeth ac achosion neilltuol, polisi, gweithdrefnau a hyfforddiant, gan gynnwys Diogelu ac *Atal*. Mae aelodau'r grŵp hwn yn cynnwys y Pennaeth Cynorthwyol sy'n gyfrifol am yr ochr fugeiliol, y Pennaeth Cynorthwyol sy'n gyfrifol am *Atal*, yr Uwch-Reolwr Cynorthwyol ar gyfer Disgyblu, y Rheolwr ar gyfer Cefnogaeth Ddysgu, y tîm diogelu, ac eraill a allai gael rhan benodol mewn materion diogelwch a llesiant myfyrwyr.

Adolygu'r Strategaeth a Pholisi

Adolygir y strategaeth *Atal* yn flynyddol fel rhan o Bolisi Diogelu ehangach, ond fe'i diwygir ar unwaith yn unol â'r canllawiau cenedlaethol a ddiwygiwyd yn ôl yr angen. Mae'r grŵp Diogelu yn cynnwys Llywodraethwr Cysylltiol, a bydd y Bwrdd Llywodraethol cyflawn yn derbyn diweddariadau ar faterion diogelu fel eitem ar eu agenda. Cyswllt Strategaeth ychwanegol:

Cydlynedd Rhanbarthol Cymuned Gampws Diogel yng Nghymru

(Swydd heb ei llenwi yng Nghymru ar hyn o bryd – Chwefror 2021)

Atodiad 1

Defnyddiwch y ddolen hon: [All Wales Prevent Partners Referral Form - English \(south-wales.police.uk\)](https://south-wales.police.uk/all-wales-prevent-partners-referral-form-english)

REFERRAL PROCESS

Please complete the form to the best of your knowledge and with as much detail as possible.

This information will be administered by the relevant police force and passed to a local Prevent team. Where possible we aim to give you feedback on your referral, however this is not always possible due to case sensitivities.

INDIVIDUAL'S BIOGRAPHICAL & CONTACT DETAILS

Forename(s)

First Name(s)

Surname

Last Name

Date of Birth (DD/MM/YYYY)

D.O.B.

Gender

Please Describe

Known Address

Address Line 1

Address Line 2

Town

Postcode

Nationality

Nationality

Contact Number(s)

Telephone Number(s)

Email Address(es)

Email Address(es)

Does the individual have any social media profiles? *

- Yes
- No

Any Other Family Details

Family makeup? Who lives with the Subject? Anything relevant.

Current / Previous Occupation(s) & Employer(s)

Current / Previous Occupation(s) & Employer(s)